



Shared **Regulatory** Services
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir



Canllawiau i bobl sy'n berchen ar safleoedd lle mae gwelyau haul ar gael i'w defnyddio, neu sy'n eu rheoli



Mae Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar fusnesau gwelyau haul i atal unrhyw berson o dan 18 oed rhag defnyddio gwely haul neu fynd i barth cyfyngedig lle mae gwelyau haul yn bresennol. Rhaid i weithredwyr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y defnyddiwr gwely haul dros 18 oed, a all gynnwys:

Gwiriad dilysu oedran

Gwiriwch oedran y defnyddiwr gwely haul trwy ofyn am gerdyn adnabod sy'n cynnwys yr hologram PASS (Cynllun Safonau Prawf Oedran) neu ffurf dderbyniol arall o ID megis pasbort dilys neu drwydded yrru â llun.

Gweithredu polisi her 25

Heriwch bob defnyddiwr gwely haul sy'n ymddangos fel petaent yn edrych o dan 25 oed, gan ofyn am gael gweld ffurf dderbyniol o ID

Hyfforddiant staff a defnyddio arwyddion

Sicrhewch bod staff yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd ac arddangoswch arwyddion sy'n atgoffa staff a chwsmeriaid o'r cyfyngiad oedran sydd ar waith. Cadwch gofnodion o weithdrefnau, hyfforddiant staff rheolaidd a chofnodwch pob digwyddiad gan gynnwys gwrthod dangos rhagofalon rhesymol a diwydrwydd dyladwy wedi'u cymryd.

Offer diogelwch

Dylai'r holl offer lliw haul uwchfioled (UV) fod mewn cyflwr gweithio da a dylid eu cynnal a'u cadw yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Mae Rheoliadau Diogelwch Cynnyrch Cyffredinol 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynnyrch y bwriedir ei ddefnyddio, neu sy'n debygol o gael ei ddefnyddio, fod yn ddiogel. Dylid darparu gwybodaeth hefyd i'r defnyddiwr mewn perthynas ag unrhyw risgiau posibl wrth ddefnyddio cynnyrch o'r fath. Mae hyn yn cynnwys cynnig y defnydd o wely haul i ddefnyddwyr.

Dylai offer lliw haul UV gydymffurfio â'r safonau a nodir yn **BS EN 60335-2-27**: 2013 ac ni ddylai fod yn fwy na'r lefel arbelydriad uchaf o 0.3 wat y metr sgwâr (0.3 W/m²). Bydd lliw haul ar y lefel hon yn lleihau'r risg o losgi yn sylweddol. Fodd bynnag, wrth ailosod tiwbiau UV, dylid lleihau amseroedd sesiynau.

Dylai'r holl brif offer trydanol gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Offer Trydanol (Diogelwch) 2016 sydd hefyd yn gweithredu'r Gyfarwydddeb Foltedd Isel (2006/95/EC) sy'n gosod dyletswyddau ar ddylunio, gweithgynhyrchu a chyflenwi offer trydanol sydd ag ystod foltedd rhwng 50–1000 folt cerrynt eiledol neu 75–1500 folt dc.

Gwybodaeth bellach

Cyfyngiad oedran cyfreithiol gwelyau haul: www.businesscompanion.info/en/quick-guides/underage-sales/sunbeds-w

Diogelwch cynnyrch: www.businesscompanion.info/en/quick-guides/product-safety

Diogelwch cynnyrch-diwydrwydd dyladwy: www.businesscompanion.info/en/quick-guides/product-safety/product-safety-due-diligence

Rheoliadau Diogelwch Cynnyrch Cyffredinol 2005:

www.gov.uk/government/publications/general-product-safety-regulations-2005/general-product-safety-regulations-2005-great-britain



Shared **Regulatory** Services
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir



Mae Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau gael systemau digonol ar waith i osgoi cyflawni trosedd.

Rhaid i fusnesau sicrhau:

- Mae defnyddiwr y gwely haul dros 18 oed a chymerir camau i wirio eu hoedran.
- Goruchwylir y safle gan berson cymwys ac maent yn bresennol ar adegau pan fo person yn defnyddio gwely haul, neu'n ceisio ei ddefnyddio.
- Rhoddir cymorth i'r defnyddiwr gwely haul i asesu eu math o groen.
- Rhoddir canllawiau i'r defnyddiwr gwely haul i'w gwneud yn ymwybodol o'r risgiau gan ystyried y math o groen, cyflyrau croen/meddygol ac unrhyw feddyginiaeth a allai adweithio ag amlygiad i ymbelydredd UV. **Dylid cynghori pobl â chroen Math I a II i beidio â defnyddio offer lliw haul UV.**
- Cynghorir defnyddiwr y gwely haul am weithrediad diogel y gwely haul gan gynnwys sawl munud y dylai gyfyngu ei sesiwn iddo.
- Darperir y daflen wybodaeth iechyd ragnodedig i bob defnyddiwr gwely haul.
- Mae'r poster gwybodaeth iechyd rhagnodedig yn cael ei arddangos yn syth wrth fynd i mewn i'r adeilad gwelyau haul ac mae o leiaf maint A3. Ni ddylai unrhyw ddeunydd arall sy'n cynnwys gwybodaeth am effeithiau iechyd defnyddio gwelyau haul gael ei ddarparu na'i arddangos.
- Darperir a defnyddir sbectol amddiffynnol gan y defnyddiwr gwely haul.

Glanhau a Diheintio Priodol

- Dylai gweithdrefnau fod yn eu lle ar gyfer glanhau arferol a glanhau mwy trylwyr.
- Rhaid glanhau a diheintio offer lliw haul yn syth ar ôl pob defnydd. Dylid glanhau a diheintio arwynebau cyswllt dwylo a thoiledau yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Rhaid cael gwared ar sbectol untro ar ôl eu defnyddio a rhaid diheintio unrhyw sbectol y gellir eu haildefnyddio yn drylwyr rhwng defnyddiau. Dylid glanhau gwyntyllau offer yn rheolaidd, ar ôl sicrhau bod y cyflenwad trydan wedi'i ynysu a bod modd cael mynediad diogel i'r gwyntyllau.
- Dylai cynhyrchion glanhau gydymffurfio â **BS EN 1276** (atal twf a lledaeniad bacteria niweidiol) a **BS EN 14476** (yn cynnwys cynhwysion priodol i ddileu firysau).
- Rhaid i gynhyrchion glanhau fod yn addas i'w defnyddio ar welyau haul a pheidio ag achosi niwed i'r rhai sy'n eu defnyddio. Dylid gwanhau cynhyrchion yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'u cymhwyso ar gyfer yr amser cyswllt cywir ar gyfer y gwanhad penodol a ddefnyddir.
- Dylid darparu a chynnal cyfleusterau golchi/sychu dwylo gyda chyflenwad digonol o sebon hylif/ewyn a thyweli papur untro, untro.
- Dylid gwneud cynhyrchion yn ffres yn rheolaidd (yn ddelfrydol bob dydd) er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf. Mae defnyddio cadachau tafladwy/tywelion papur a phennau mopiau yn arfer gorau wrth lanhau. Os nad un defnydd, rhaid eu newid yn rheolaidd. Dylid glanhau a diheintio offer glanhau nad ydynt yn un defnydd ac untro (h.y. bwcedi) ar ôl pob defnydd. Ni fydd glanhau effeithiol yn cael ei gyflawni os defnyddir offer budr.
- Er mwyn lleihau'r risg o haint, gellir defnyddio matiau llawr untro mewn gwelyau sefyll, a dylid newid y rhain rhwng pob defnyddiwr. Tybiwch bob amser fod holl halogiad hylif y corff yn heintus.

Gwybodaeth bellach

Taflen wybodaeth iechyd ragnodedig:

www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/health-information-for-sunbed-users.pdf

Poster gwybodaeth iechyd rhagnodedig:

www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/sunbed-a3-poster.pdf

Canllawiau: www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/the-sunbeds-regulation-act-2010-wales-regulations-2011.pdf



Shared Regulatory Services
Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir



srs.wales



0300 123 6696



@SRS_Wales